



EIN BRAND

Efallai eich bod wedi sylwi bod Sefydliad Cymunedol Cymru yn edrych ychydig yn wahanol.

Rydyn ni wedi cyflwyno hunaniaeth newydd, gan gynnwys logo, lliwiau ac arddull weledol newydd, ochr yn ochr â negeseuon cliriach ynglŷn â phwy ydyn ni a'n rôl ledled Cymru.

Er bod rhai pethau wedi newid, mae ein pwrpas yr un peth. Rydyn ni'n parhau i fod wedi ymrwymo i gysylltu haelioni â chymunedau ar draws Cymru, gan helpu pobl, teuluoedd, busnesau a sefydliadau i fuddsoddi yn y lleoedd a'r achosion sy'n bwysig iddyn nhw.

Mae ein brand newydd yn adlewyrchu pwy ydyn ni heddiw a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol. Gobeithio y bydd y dudalen hon yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi o pam rydyn ni wedi gwneud y newidiadau hyn, y syniadau y tu ôl i'n hunaniaeth newydd a beth mae'n ei olygu i'r bobl a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw.

EIN STORI

Pam rydyn ni wedi diweddarau ein brand?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Sefydliad Cymunedol Cymru wedi tyfu'n sylweddol. Rydyn ni wedi ehangu ein gwaith gyda rhoddwyr a deiliaid cronfeydd, cynyddu'r cyllid rydyn ni'n ei ddosbarthu, cryfhau partneriaethau ar draws Cymru a thyfu ein huchelgais ar gyfer y dyfodol.

Nid oedd ein hen frand yn adlewyrchu'n llawn pwy ydyn ni heddiw nac i ba gyfeiriad rydyn ni'n mynd.

Mae'r broses wedi cynnwys llawer mwy na diweddarau ein hunaniaeth weledol. Rydyn ni hefyd wedi manteisio ar y cyfle i gryfhau naratif ein brand, i ddiweddarau ein gwerthoedd fel sefydliad ac i fynegi ein rôl yn gliriach wrth dyfu haelioni ledled Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn mynegi'n gliriach pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei gynrychioli a'r effaith rydyn ni'n helpu i'w chreu ar draws Cymru.

Sut cafodd y brand newydd ei ddatblygu?

Roedd diweddarau ein brand yn broses gydweithredol. Gan weithio ochr yn ochr â'r asiantaeth ddylunio a benodwyd, fe wnaethon ni archwilio sut mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn cael ei weld heddiw a sut rydyn ni eisiau cael ein deall yn y dyfodol.

Drwy gydol y broses, fe wnaethon ni gynnwys staff, ymddiriedolwyr a rhanddeiliaid allweddol, ochr yn ochr â chynulleidfaoedd allanol gan gynnwys rhoddwyr, deiliaid cronfeydd, partneriaid a sefydliadau cymunedol.

Drwy weithdai, grwpiau ffocws ac arolygon, fe wnaethon ni brofi ein negeseuon a'n hunaniaeth weledol, er mwyn sicrhau bod y brand terfynol wir yn adlewyrchu'r bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Ffrwyth y gwaith hwnnw yw brand sydd wedi'i ddatblygu gyda'n cynulleidfaoedd, yn hytrach na'i gynllunio ar eu cyfer nhw'n unig.

Pam nawr?

Wrth i Sefydliad Cymunedol Cymru barhau i dyfu, roedd hyn yn teimlo fel yr amser iawn i sicrhau bod ein hunaniaeth yn adlewyrchu'r sefydliad rydyn ni erbyn hyn.

Mae ein brand newydd yn cefnogi ein gweledigaeth hirdymor, yn cryfhau sut rydyn ni'n cyfathrebu â'n cynulleidfaoedd ac yn cynnig llwyfan ar gyfer y dyfodol.

CEFNDIR EIN BRAND

Mae pob elfen o'n hunaniaeth newydd wedi'i chynllunio'n ofalus i adlewyrchu pwy yw Sefydliad Cymunedol Cymru erbyn hyn a'n rôl ledled Cymru.

Ein logo

Mae marc 'M' trawiadol wrth wraidd ein hunaniaeth newydd, wedi'i ysbrydoli gan y perthnasoedd sydd wrth wraidd Sefydliad Cymunedol Cymru.

Mae'r ffurf lifol yn cynrychioli cysylltiad. Mae'n dod â rhoddwyr, busnesau, deiliaid cronfeydd a chymunedau lleol at ei gilydd drwy haelioni.

Nid oes dechrau na diwedd i'r patrwm parhaus, sy'n adlewyrchu natur barhaol haelioni a'r effaith donnog y mae'n ei chreu wrth i haelioni ysbrydoli cyfleoedd, cryfhau cymunedau a chreu newid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gall y marc gael ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai'n gweld curiad calon, sy'n cynrychioli'r bobl a'r cymunedau sydd wrth galon Cymru, tra bod eraill yn gweld y tirweddau sy'n newid yn barhaus ac sy'n siapio ein cenedl. Fel haelioni ei hun, gellir ei ddehongli ym mha bynnag ffordd, gan adlewyrchu symudiad, twf ac effaith barhaol.

Wedi'i gyfuno â dyluniad symlach a mwy cyfoes, mae'r logo'n gweithio'n gyson ar draws deunydd cyfathrebu digidol a phrint, ond yn dal i fod yn gyfarwydd fel Sefydliad Cymunedol Cymru.

Ein lliwiau

Tirweddau naturiol Cymru oedd ysbrydoliaeth ein palet o liwiau. Wedi'i ddylanwadu gan ein harfordir, ein mynyddoedd, ein coetiroedd a'n cefn gwlad, mae'r lliwiau'n adlewyrchu'r lleoedd y mae ein cymunedau'n eu galw'n gartref. Maen nhw'n creu hunaniaeth gynnes, gadarnhaol a hygyrch sy'n teimlo fel pe bai wedi'i gwreiddio yng Nghymru tra'n cefnogi profiad gweledol mwy cyson ar draws ein deunydd cyfathrebu.

Ein teipograffeg

Mae'r ffurfdeip wedi'i ddewis yn ofalus i adlewyrchu tôn ein llais. Mae'n glir, yn agos-atoch ac yn hawdd ei ddarllen, gan gefnogi ein hymrwymiad i gyfathrebu mewn ffordd sy'n groesawgar, yn broffesiynol, heb jargon diangen.

Ein gwerthoedd

Ochr yn ochr â'n hunaniaeth weledol, rydyn ni wedi diweddarau gwerthoedd ein sefydliad. Maen nhw'n adlewyrchu pwy ydyn ni erbyn hyn, sut rydyn ni'n gweithio a'r profiad rydyn ni eisiau i bobl ei gael pan fyddan nhw'n ymgysylltu â Sefydliad Cymunedol Cymru. Gallwch weld ein gwerthoedd [yma](#).

Naratif ein brand

Rydyn ni hefyd wedi datblygu naratif brand cliriach sy'n egluro ein rôl yn well. Mae'n adlewyrchu ein huchelgais i dyfu haelioni cymunedol yng Nghymru ac i atgyfnerthu ein lle fel sefydliad dibynadwy sy'n cysylltu haelioni â chymunedau ledled Cymru.

Byddwch hefyd yn dechrau gweld ein slogan newydd: **Creu daioni drwy haelioni**

Gyda'i gilydd, mae ein hunaniaeth weledol, ein gwerthoedd a'n naratif yn creu brand sy'n adlewyrchu ein treftadaeth a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol.

EICH CWESTIYNAU

A yw'r sefydliad wedi newid ei enw?

Sefydliad Cymunedol Cymru ydyn ni o hyd ac nid yw ein henw wedi newid, dim ond ein hunaniaeth weledol a'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu ein gwaith.

Oes unrhyw beth wedi newid ynglŷn â Sefydliad Cymunedol Cymru?

Mae ein cenhadaeth a'n hymrwymiad i gymunedau ledled Cymru yn dal union yr un peth. Yr hyn sydd wedi newid yw'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu pwy ydyn ni a'n rôl. Mae ein hunaniaeth newydd yn helpu i adlewyrchu'r sefydliad rydyn ni erbyn hyn a'n huchelgais ar gyfer y dyfodol.

Pam rydyn ni'n sôn mwy am haelioni?

Mae haelioni wastad wedi bod wrth wraidd Sefydliad Cymunedol Cymru, ond mae ein hunaniaeth newydd yn rhoi cyfle i ni sôn amdano'n fwy hyderus a chlr.

Rydyn ni'n gwybod y gall haelioni deimlo weithiau fel gair sy'n cael ei gysylltu â chyfoeth neu roddion elusennol mawr yn unig. I ni, mae'n llawer ehangach na hynny.

Mae haelioni yn ymwneud â phobl, teuluoedd, busnesau a sefydliadau sy'n dewis buddsoddi yn nyfodol y cymunedau sy'n bwysig iddyn nhw. Gall ddigwydd mewn sawl ffordd, ond mae ymrwymiad ar y cyd i greu newid parhaol yn rhan annatod o'r cyfan.

Mae Sefydliad Cymunedol Cymru yn bodoli i gysylltu'r haelioni hwnnw ag anghenion y gymuned, gan helpu i sicrhau ei fod yn creu effaith ystyrlon, barhaol ar draws Cymru.

Pam wnaethoch chi fuddsoddi yn yr ail-frandio?

Mae diweddarau ein brand yn fuddsoddiad yn nyfodol Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae hunaniaeth gryfach a chliriach yn helpu mwy o bobl i ddeall pwy ydyn ni, yn annog mwy o haelioni ar draws Cymru ac yn cryfhau ein gallu i feithrin perthynas gyda rhoddwyr, deiliaid cronfeydd, busnesau a phartneriaid. Yn y pen draw, mae tyfu haelioni yn ein galluogi i fuddsoddi mwy mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae'r ail-frandio hefyd yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn sicrhau gwerth da am arian, gyda deunyddiau'n cael eu diweddarau'n raddol fel rhan o drawsnewidiad graddol, yn hytrach na'u disodli'n ddiangen.

A yw hyn yn effeithio ar gyllid?

Nac ydy, nid yw ein rhaglenni cyllid na'n prosesau gwneud cais wedi newid.

Mae gen i grant ar hyn o bryd. Oes angen i fi ddiweddarw logo Sefydliad Cymunedol Cymru?

Os cafodd eich grant ei ddyfarnu cyn mis Hydref 2026, nid oes angen i chi newid ein hen logo na diweddarw deunydd cyhoeddusrwydd sy'n bodoli'n barod. Bydd grantiau newydd sy'n cael eu dyfarnu o fis Hydref 2026 ymlaen yn dod gyda'n brand newydd a'n canllawiau cyhoeddusrwydd diwygiedig.

Sut rydw i'n rhoi cyhoeddusrwydd i'm grant?

Rydyn ni wedi cyflwyno canllaw newydd *Sut i roi cyhoeddusrwydd i'ch grant*, ynghyd â logos ac asedau brand y gellir eu lawrlwytho, er mwyn helpu sefydliadau i hyrwyddo eu prosiectau'n gyson.

Ble galla i lawrlwytho'r logo newydd?

Mae ein gwefan yn cynnwys adran Adnoddau Brand pwrpasol lle gall partneriaid, deiliaid grantiau a'r cyfryngau lawrlwytho logos, canllawiau cyhoeddusrwydd ac asedau brand sydd wedi'u cymeradwyo.

A yw hyn yn effeithio ar roddwyr, deiliaid cronfeydd neu bartneriaid?

Nac ydy, mae'r perthnasoedd rydyn ni wedi'u meithrin yn aros yr un fath yn union. Mae ein hunaniaeth newydd yn ein helpu i gyfathrebu ein gwaith yn fwy clir a chyson.

A fydd popeth yn newid dros nos?

Na fydd, fel elusen fach, rydyn ni'n cyflwyno'r brand newydd yn raddol. Byddwch yn dechrau gweld ein hunaniaeth newydd yn ymddangos ar draws ein gwefan, cyhoeddiadau, digwyddiadau a sianeli digidol dros y misoedd nesaf. Bydd deunyddiau sy'n bodoli'n barod yn parhau i gael eu defnyddio lle bo'n briodol er mwyn osgoi gwastraff diangen ac i sicrhau gwerth da am arian.

EDRYCH YMLAEN

Mae brand yn llawer mwy na logo. Dyna sut mae pobl yn deall pwy ydyn ni, beth rydyn ni'n ei gynrychioli a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud.

Dechrau'r bennod nesaf ar gyfer Sefydliad Cymunedol Cymru yw ein hunaniaeth newydd. Er bod ein hunaniaeth weledol wedi datblygu, mae ein gweledigaeth yn dal yr un fath: Cymru lle mae haelioni'n cryfhau cymunedau, gan greu effaith heddiw ac i'r dyfodol.

Rydyn ni'n gobeithio y bydd yr hunaniaeth newydd hon yn cryfhau dealltwriaeth o'n rôl ac yn ein helpu i barhau i greu daioni drwy haelioni am genedlaethau i ddod.

Ein stori ni, yn ein geiriau ni

Mae gan bob cymuned ei stori ei hun.
Stori'r bobl, y lleoedd, a'r cysylltiadau sy'n eu clymu.

Mae haelioni'n cael ei weld mewn nifer o ffyrdd yng Nghymru.
Haelioni er cof.
Haelioni gyda phwrrpas.
Haelioni gyda ffydd yng ngallu cymunedau lleol.

Bod yn bont yw ein rôl ni.
Pont rhwng y bobl a'r sefydliadau sy'n dymuno rhoi,
a'r cymunedau fyddai'n elwa fwyaf.

Rydyn ni'n gwrando.
Rydyn ni'n dysgu.
Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod y cyllid yn cyrraedd y bobl ar lawr gwlad.

Weithiau mae haelioni'n bodloni angen ar unwaith.
Weithiau mae'n helpu cymunedau i gynllunio at yfory.
At ei gilydd, mae'n helpu i gryfhau cymunedau at y dyfodol.

Creu daioni drwy haelioni.

Sefydliad
Cymunedol Cymru
Community
Foundation Wales

Llawr 1af
Tŷ Hastings
Fitzalan Place
Caerdydd
CF24 0BL

02920 379580
sefydliadcymunedolcymru.org.uk
info@communityfoundationwales.org.uk

Charity No 1074655 | Company No 03670680